Mwy o wybodaeth

Gallwch dderbyn mwy o wybodaeth ar wefan ParentPay, neu cysylltwch â'ch ysgol.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

ParentPay®

Cyflwyniad i'n Gwasanaeth

Taliadau Ar-lein Newydd

Wedi'i gefnogi gan
Raglen Foderneiddio
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

www.parentpay.com

Beth mae ParentPay yn fy ngalluogi i i'w wneud?

- Talu am brydau ysgol ac eitemau eraill fel clybiau, teithiau (a llenwi ffurflenni caniatâd ar gyfer gweithgareddau)
- Talu am bethau gyda sicrwydd diogelwch
- Cadw llygad ar eich balansau
- Gweld y taliadau rydych chi wedi'u gwneud
- Uno cyfrifon os oes gennych chi fwy nag un plentyn yn yr ysgol
- Gweld pob eitem y gallwch chi dalu amdani sy'n berthnasol i bob un o'ch plant
- Derbyn derbynebau i'ch cyfeiriad e-bost

Sut mae ParentPay yn fy helpu i?

- Rhoi rhyddid i chi dalu'r ysgol pryd bynnag a ble bynnag yr hoffech chi
- Ni fyddwch yn gorfod ysgrifennu sieciau na chwilio am arian parod i'w anfon at yr ysgol
- Rhoi tawelwch meddwl i chi bod y taliad wedi'i wneud yn ddiogel
- Eich helpu gyda chyllidebu; mae'r taliadau yn cael eu gwneud yn syth bin felly does dim angen aros i unrhyw siec glirio
- Gallwch dalu am deithiau fesul tipyn hyd at y dyddiad talu'n llawn
- Mae ParentPay yn hawdd a chyflym i'w ddefnyddio

Sut mae ParentPay yn helpu'r ysgol?

- Lleihau'r amser a dreulir ar weithdrefnau bancio
- Cadw cofnodion cywir am daliadau i bob gwasanaeth ar gyfer pob myfyriwr
- Nid yw taliadau yn cael eu gwrthod
- Lleihau 'gwastraff' papur
- Caniatáu'r ysgol i wneud ad-daliadau yn rhwydd a chyflym yn ôl i'r cerdyn a ddefnyddiwyd i dalu
- Gwella cyfathrebu rhwng yr ysgol a rhieni o ran taliadau
- Casglu arian mewn ffordd fwy effeithlon, lleihau'r arian a gedwir ar safle'r ysgol

Sut ydw i'n cofrestru?

Byddwn yn anfon llythyr cofrestru atoch chi er mwyn i chi allu agor cyfrif ParentPay. Bydd y llythyr yn cynnwys enw defnyddiwr a chyfrinair i chi eu defnyddio i fewngofnodi i ParentPay. Yn ystod y broses gofrestru byddwch yn derbyn canllawiau i newid eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair i rywbeth mwy cofiadwy; gallwch hefyd uno cyfrifon os oes gennych chi fwy nag un plentyn yn yr ysgol.